# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 4 Rhagfyr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Partneriaeth y Cynulliad gyda Busnesau

**C14 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar fesurau i hybu partneriaeth y Cynulliad gyda busnesau? (OAQ14420)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Erbyn hyn, mae Busnes Cymru a Chynghrair Undebau Llafur Cymru wedi sefydlu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru Cyfyngedig. Bydd yr uned yn cael cymorth ariannol gan y Cynulliad a bydd yn dechrau ar ei gwaith yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Bydd yn hwyluso gwaith y partneriaid cymdeithasol wrth iddynt roi cyfraniad o ansawdd da i waith y Cynulliad ac i waith rheoli'r rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ14436) yn ôl.*